



Arloesi Economi Gylchol

Ydych chi am ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau arloesi a datblygu cynlluniau twf glân? Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn gwella'ch galluoedd tendro ar gyfer contractau wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru?

Bydd rhaglen CE Rhwydwaith Arloesi yn cefnogi busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu cynlluniau arloesi, o fewn rhwydwaith o bobl o'r un anian o bob rhan o'r rhanbarth. Bydd y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn datblygu cynlluniau twf glân a allai fod yn gymwys ar gyfer cyllid arloesi Llywodraeth Cymru.

Rydym yn dod â busnesau ynghyd o bob rhan o Dde Cymru i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r economi gylchol a'u cynlluniau arloesi ar y cyd i gefnogi twf glân a chyfrannu at uchelgeisiau 'Cymru Sero Net' Llywodraeth Cymru.

Byddwch yn ymuno â phobl o amrywiaeth o sefydliadau ac yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithdai rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar allbwn. Byddwch yn dysgu dulliau ac offer arloesi sy'n gwella cynhyrchiant, yn cynyddu boddhad cwsmeriaid ac yn sicrhau manteision Economi Gylchol. Byddwch yn cael eich cefnogi i ddatblygu cynlluniau arloesi y gellir eu rhoi ar waith a'u cyfeirio at gyllid arloesi. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio ar gyfer pobl sy'n gallu dylanwadu ar wasanaethau a datblygu cynnyrch.

Bydd y rhaglen 6 mis yn cynnwys

- Gweithdai misol i ddatblygu sgiliau arloesi ac adeiladu rhwydweithiau cryf i gefnogi datblygiad cynlluniau arloesi.
- Cefnogaeth Ymchwil a Datblygu gan WRAP Cymru a staff y Brifysgol.
- Cymorth mentora 1 i 1.

Mae'r deilliannu'n cynnwys:

- Gwybodaeth a sgiliau arloesi gwell
- Datblygu gwybodaeth am yr Economi Gylchol
- Cynllun Twf Glân/Cynllun Sero Net
- Cynllun Arloesi
- Aelodaeth o'r Rhwydwaith Arloesi

I fynegi diddordeb yn y rhaglen hon a ariennir yn llawn ac sy'n dechrau Hydref 23 ewch i

<https://applications.ceicwales.org.uk/application>

